



Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C
18 Gorffennaf, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin

Cyfarfod Rhif 429

Presennol:

**Aelodau Anweithredol
y Bwrdd:**

Huw Jones	(Cadeirydd)
Anita George	(Aelod o'r Bwrdd)
Owen Derbyshire	(Aelod o'r Bwrdd)
Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Bwrdd)
Rhodri Williams	(Aelod o'r Bwrdd)

**Aelodau Gweithredol
y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

Elin Morris	(Prif Swyddog Gweithredol)
Amanda Rees	(Cyfarwyddwr Cynnwys)

Hefyd yn bresennol:

Staff S4C:

Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
Phil Williams	(Ysgrifennydd y Bwrdd)
Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Cyllid) – eitem 12
Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi) – eitem 10
Huw Jones	(Uwch Swyddog Dadansoddi) – eitem 10
Owain Lloyd	(Darpar Ysgrifennydd y Bwrdd)
Bethan C. Williams	(Cynorthwydd Ysgrifennydd y Bwrdd)

Ymddiheuriadau:

Siân Lewis	(Aelod o'r Bwrdd)
Owen Evans	(Prif Weithredwr)

MATERION SEFYDLOG:

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng nghanolfan S4C Yr Egin. Estynnwyd croeso arbennig i Owain Lloyd, darpar Ysgrifennydd y Bwrdd a fydd yn ymgymryd â'i ddyletswyddau ar y 1af o Awst.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 428 a gynhaliwyd ar 27ain o Fehefin, 2019**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 428 a gynhaliwyd ar 27ain o Fehefin.

Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 428**

5.1.6 - Ymateb i Gylch yr Iaith - Roedd Cylch yr Iaith wedi gofyn am gopi electroneg o'r Canllawiau Iaith Rhaglenni. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb pellach hyd yma.

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth.

Pwyntiau 4 ac 11 - trafodaethau gyda'r BBC ynghylch Cytundeb Golygyddol a Chynllun Rhaglenni 2019/20.

[Crynodeb: Roedd swyddogion yn parhau i drafod ar lafar, a chynhaliwyd cyfarfod agored ac adeiladol yn ddiweddar. Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau bod Cytundeb Golygyddol ac yn ogystal Gynllun Rhaglenni blynyddol yn eu lle rhwng S4C a'r BBC cyn gynted â phosibl.]

Nodwyd bod ymrwymiad ariannol blynyddol y BBC bellach wedi ei nodi yn y Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd ers Tachwedd 2017, yn hytrach nac yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol (sef olynydd y Cytundeb Golygyddol).

5. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Adroddiad Blynyddol 2018/19

Nododd bod yr Adroddiad wedi ei osod gerbron y Senedd ar 16 Gorffennaf ac wedi ei osod gerbron y Cynulliad a'i gyhoeddi ar 17 Gorffennaf. Cafwyd sylw cytbwys ar y cyfan yn y wasg.

Roedd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad wedi estyn gwahoddiad i S4C i drafod yr Adroddiad Blynyddol gyda'r Pwyllgor ym mis Medi.

Pwyllgor Dethol Materion Cymreig

Esboniwyd bod y Pwyllgor wedi gohirio eu hymwelid â'r Egin. Disgwylir manylion pellach pan fydd y cyfarfod wedi ei ail-drefnu.

Penodi Cadeirydd Newydd

Nodwyd bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi bod ddoe. Gobeithir y bydd y broses yn mynd rhagddi yn unol â'r amserlen sydd wedi ei chytuno gyda DCMS er mwyn croesawu Cadeirydd newydd yn yr hydref.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

(Yn absenoldeb OE, cyflwynwyd yr adroddiad gan EM)

Diweddariad Sefyllfa TAW

[Crynodeb: Cyflwynodd EM ddiweddariad parthed y trafodaethau am sefyllfa TAW S4C. Roedd y trafodaethau'n parhau gyda DCMS, y Trysorlys a CThEM.]

Amcanion Gweithredol drafft ar gyfer 2019/20

Cyflwynwyd Amcanion Gweithredol drafft ar gyfer 2019/20.

Cymeradwywyd yr Amcanion Gweithredol ar gyfer 2019/20 gan y Bwrdd.

Diweddariad Cydleoli Misol

Cyflwynodd EM ddiweddariad parthed y prosiect Cydleoli.

[Crynodeb: Nododd bod OE yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio Sgwâr Canolog y BBC yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r BBC yn dilyn y sesiwn graffu gyda'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol. Roedd mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr i OE o gynnydd a risgiau'r prosiect a oedd yn caniatáu iddo ddeall y cyd-destun ehangach wrth asesu elfennau S4C y prosiect, a pharatoadau S4C ar gyfer symud i Sgwâr Canolog.]

7. **Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni 2018/19 a Datganiad Polisi Rhaglenni 2019/20**

Cyflwynodd AR Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni drafft ar gyfer 2018/19, ynghyd â Datganiad Polisi Rhaglenni Drafft ar gyfer 2019/20 ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd.

[Crynodeb: Esboniwyd bod paratoi Datganiad Polisi Rhaglenni, ac yna'i adolygu ar ddiwedd y flwyddyn a'u cyflwyno i Ofcom yn ddyletswydd statudol ar S4C. Awgrymwyd y dylid cysoni'r adolygiad gyda'r Adroddiad Blynyddol.]

Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2019/20, a phenderfynwyd cymeradwyo'r Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2018/19.

8. **Adroddiad Blynyddol S4C ar weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg 2018/1**

Cyflwynodd CHR Adroddiad Blynyddol S4C ar weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2018/19 a nodwyd fod cyhoeddi adroddiad blynyddol parthed gweithredu'r Safonau Iaith sy'n berthnasol i S4C yn ofyniad cyfreithiol.

Esboniwyd bod y Safonau sy'n berthnasol i S4C yn ymwneud â materion megis gweithlu S4C a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Roedd darparu gwasanaethau teledu ac ar-lein, a gweithgareddau darlledu S4C wedi eu heithrio o'r Safonau.

Awgrymwyd y dylid gwahodd y Comisiynydd newydd, Aled Roberts i gyfarfod y Bwrdd er mwyn trafod cyfleoedd i gydweithio o ran y strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Penderfynwyd gwahodd Comisiynydd y Gymraeg i gyfarfod y Bwrdd.

9. **Diweddariad y Prosiect Digidol**

Cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Misol y Prosiect Digidol.

[Crynodeb: Nodwyd fod 25,600 o bobl eisoes wedi cofrestru gyda Clic. Roedd 'sianelau' wedi eu hychwanegu i ryngwyneb Clic, gan gynnwys Cyw. Bwriedir cyflwyno sianel i Ddysgwyr ym mis Medi.]

10. **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 1 2019/20**

Cyflwynodd GW Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 1 2019/20.

[Crynodeb: Roedd prif ymgyrchoedd y cyfnod yn cynnwys Un Bore Mercher, Merched Parchus, sef y ddrama gyntaf i fod ar gael ar-lein cyn darlledu, Ffit Cymru ac Eisteddfod yr Urdd. Trafodwyd sut i asesu effaith hyrwyddo ar berfformiad rhaglenni.]

11. **Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 1 2019/20**

[Crynodeb: Cyflwynodd CE a HJY yr Adroddiad Dadansoddi ar gyfer Chwarter 1 2019/20. Yn ogystal, cyflwynwyd y Crynodebau Misol o berfformiad S4C ar deledu ac ar-lein ar gyfer Mehefin.]

Diolchodd y Cadeirydd i CE a HJ am eu cyfraniad pwysig i waith S4C dros nifer sylweddol o flynyddoedd, gan nodi mai hwn yw cyfarfod Bwrdd olaf y ddau, gan y byddant yn gadael S4C dros yr haf.

12. **Adroddiad Ariannol Chwarter 1 2019/20**

[Crynodeb: Cyflwynodd ShW Adroddiad Ariannol Chwarter 1, 2019/20 i'r Bwrdd.]

13. **Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf**

Cyflwynodd EM gofnodion cyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf.

[Crynodeb: Yn ogystal â'r isod trafodwyd rhai o'r buddsoddiadau ecwiti, cynllun pensiwn Ofcom ac ystâd S4C ym Mharc Tŷ Glas.]

Trefn sianelau ar yr EPG

Nodwyd fod Ofcom wedi cyhoeddi canlyniadau eu hymgyngoriad i amlygrwydd a threfn sianelau PSB ar yr EPG ledled Prydain.

O dan y drefn arfaethedig, bydd S4C yn parhau i fod ar rif 4 yng Nghymru ar Freeview, a lle nad oes EPG penodol i Gymru ar lwyfan darlledu, bydd S4C yn symud i'r 24 rhif uchaf ar draws y DU. Golyga hyn, o fewn y 18 mis nesaf, bydd S4C yn symud o rif 166 ar Virgin i rif 24 neu rif gwell. Ond os yw Virgin yn creu EPG penodol i Gymru, bydd S4C yn symud i rif 4 yng Nghymru, ond ddim yn cael gwell safle ar draws weddill y DU.

Mae Ofcom wedi argymhell y dylid cyflwyno darpariaethau statudol er mwyn rheoleiddio mynediad i sianelau drwy lwyfannau ar-lein.

Cyfrifon y Cwmnïau Masnachol

[Crynodeb: Nodwyd yr angen i sicrhau fod cyfrifon y cwmnïau masnachol yn cael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau'n brydlon. Roedd y cyfrifon wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd Masnachol a Grant Thornton, ac wedi eu cynnwys yn y Datganiad Ariannol cyfun.]

Penderfynodd y Bwrdd y dylid ffeilio cyfrifon cwmnïau'r Grŵp Masnachol cyn gynted â phosibl yn dilyn derbyn y cyfieithiad Cymraeg er mwyn cyd-fynd gyda chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol.]

14. Rhaglenni'r mis aeth heibio

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.]

15. Rhaglen Waith 2019/20

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 er gwybodaeth i'r Bwrdd. Nodwyd y cynhelir cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref yng Nghaernarfon.

16. Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

[Crynodeb: Nodwyd fod cwyn wedi'i chyfeirio at y Pwyllgor Cwynion.]

17. Unrhyw Fater Arall

Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf Phil Williams fel Ysgrifennydd S4C. Diolchodd yn gynnes iddo ar ran y Bwrdd am ei gyfraniad allweddol i waith S4C a'r Bwrdd a'r Awdurdod am bron i 12 mlynedd.